COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BETWS GWERFYL GOCH A GYNHALIWYD MEDI 4YDD 2017 YN NEUADD MELIN Y WIG AM 7.30

PRESENNOL – Ieuan Davies, Hefin Lloyd Davies, Emyr Roberts, Helen Hitchmough (Clerc), Geraint Jones, Nia Williams, Gwyn Edwards.

Croesawodd y Cadeirydd, Hefin Lloyd Davies ni i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Asheton Crawley ac Elliw Roberts y ddau ar eu gwyliau.

Derbyniwyd Cofnodion o'r cyfarfod olaf Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

Datganiad Diddordeb am yr hyn a drafodwyd – dim.

Cyfrifon 2016-2017. Y Clerc wedi ymateb i rai cwestiynnau gan yr Archwilwyr Swyddogol yn dilyn cyflwyno'r cyfrifon.

- Cofrestr Buddiannau – nid oes gan y Cyngor Bro unrhyw fuddiannau.
- Precept – mae hwn eisoes wedi cael ei drafod yng nghofnodion Hyd/Tach 2016

Materion yn codi o'r Cofnodion Olaf:

- Hysbysfyrddau – y Cadeirydd am wneud ymholiadau pellach ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- Mainc ger yr Eglwys (Betws GG). Mr W Austin wedi atgyweirio'r fainc cost o £
- Canghennau uwchben y ffens newydd wrth y parc chwarae yn Betws yn dennu plant i gerdded ar hyd y ffens. Angen torri/tocio'r canghennau.
- Draen dwfn ochr ffordd rhwng Pendre a Bod Petryal – gofyn i CSDd i roi llinnell wen ochr ffordd neu rhoi polion i arbed ceir fynd iddo. Clerc i atgoffa'r Sir am hyn.

Gohebiaeth/Materion Ychwanegol

- Tŷ newydd ger yr hen feddygfa yn Betws. Cynghorwyr yn pryderu am y diffyg man parcio sydd i'r ty newydd – llawer o geir yn parcio ar hyd ochr y ffordd ac yn creu rhwystr i'r traffic sy'n teithio ar hyd y ffordd. Trafodwyd os oedd posib cael llinellau ffordd i rwystro ceir rhag parcio? Clerc i holi ymhellach hefo'r Sir.
- Rhwystr ceir hefyd ar hyd ochr y ffordd ger Ty'n y Fron, Melin y Wig. Clerc i wneud ymholiadau pellach hefo'r Sir.
- Pryder diogelwch am y goeden sydd wedi disgyn ger llyn Bod Petryal – mae'r goeden bellach wedi cael ei thori a'i chlirio.
- Melinnau Gwynt – y clerc wedi derbyn amcanbrisiau/anfonebau gan bob cais arwahan i un. Rhaid I'r panel drafod y ceisiadau yn fuan.
- Anrhydeddu cyn gynhorwyr – nid oes hawl i dalu am unrhyw rhodd a arian y Cyngor Bro gan mai gwirfoddol ydyw gwaith y Cynghorwyr. Mae posib i'r Cadeirydd dalu a hawlio'r arian o Lwfans Cadeirydd. Trafodwyd i'r Cynghorwyr dalu yn bersonnol rhyngddynt.
- Cyfyngder pwysau wedi cael ei osod dros Bontllyngigfran 7.5 tunnell.
- Ffordd heibio Hendre i groesffordd Pencraig wedi cael ail wynebu.
- Ni fydd cwmni yswiriant AON yn parhau i gynnig gwasanaeth yswiriant i'r Cyngor Bro ar ôl diwedd y tymor presennol.
- Trafodwyd addasiadau cais Melinnau Gwynt Clocaenog (Cyf 2014 Rhif 2441 cais EN010013)
- Trafodwyd bod cyfnod o ymghynhoriad i Adolygu Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Darparu Drafft ar gyfer y CDLl newydd hyd i. 20-10-17
- Hyfforddiant – trafodwyd y cyrsiau sydd ar gael.
- Precept £962 wedi ei dderbyn.
- Clwb ar ol Ysgol. Dim digon o blant yn Ysgol Betws angen Clwb er mwyn ei wneud yn gost effeithiol I gynnal clwb yn yr ysgol. Mae posib cael Meithrinfa Corwen I nol y plant o'r ysgol am gost o tua £7 ynychwanegol at gostau arferol y Feithrinfa.

Cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 7ed am 7.30 o'r gloch.

MINUTES FROM MEETING HELD FOR THE BETWS GG/MELIN Y WIG COUNCILLOR HELD AT MELIN Y WIG HALL ON TUESDAY 4TH SEPTEMBER 2017 AT 7.30P.M.

PRESENT – Ieuan Davies, Hefin Lloyd Davies, Emyr Roberts, Helen Hitchmough (ClerK), Geraint Jones, Nia Williams, Gwyn Edwards.

Chairman, Hefin Lloyd-Davies welcomed everyone to the meeting. Apologies were received and accepted by Asheton Crawely and Elliw Roberts, both on holiday.

Minutes from the last meeting (July 2017) were accepted as correct.

There were no declaration of interest received in the matters on the meeting's Agenda.

Accounts 2016-2017. Clerk has responded to matters raised by the Official Auditors:

- Inventory of Resources– this is not applicable.
- Precept – this has already been discussed in the minutes October/November 2016.

Matters discussed following minutes:

- Display Boards – Chairman to make further enquiries by next meeting.
- Bench by Church (Betws GG). Mr W Austin has repaired the bench – Cost £
- Branches over fence in playing field need cutting (Betws GG).
- Deep drain roadside between Pendre and Bod Petryal – Clerk to remind DCC to paint white lines or place poles.

Correspondence /further discussion

- New house by the Old Surgery at Betws – Councillors concerned by lack of parking and quantity of vehicles parking on roadside. Is it possible to have white lines on roadside.
- Also concerns over vehicles parking on roadside by Ty'n y Fron, Melin y Wig.
- Fallen tree by Bod Petryal lake has been cut and removed.
  Windmill fund – awaiting Invoices by one applicant –selected panel to meet asap.
- Gift to thank previous Councillors – payment for any gifts in not permitted from Community Council funds as all Councillors work voluntarily – Chair could pay and re-claim from Chairman Allowances. Councillors discussed paying for the gifts from their own pocket.
- Weight Restriction of 7.5 tonnes has been issued over Bontllyngigfran Bridge.
- Road between Hendre and Pencraig crossroads has been resurfaced.
- AON insurance will not be offering insurance services at the end of the current insurance period.
- Clocaenog Windmills application was discussed (REF 2014 NO. 2441 CAIS EN010013)
- Consultation period on Local Development Plan Review Report and Draf Delivery Agreement for the Replacement LDP until 20-10-17.
- Future training courses were discussed.
- Precept £962 received.
- Not enough demand for an After School Club at Betws School to make a Club cost effective. Possibility of Corwen Nursery collecting pupils from school for a cost of approx. £7 in addition to the usual Club cost.
- Next meeting Tuesday 7th November at 7.30 p.m.